# Polisi Ffonau Symudol / *Mobile Phone Policy*

## Cynnwys / *Contents*


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad a Nodau / *Introduction & Aims* | 1 |
| Rolau a Chyfrifoldebau / *Roles and Responsibilities* | 2 |
| Defnydd Disgyblion o Ffonau Symudol – Dim Goddefgarwch / *Pupils Use of Mobile Phones – Zero Tolerance* | 3 |
| Ffonau Symudol - Staff / *Mobile Phones - Staff* | 3 |
| Defnydd Ffonau Symudol yn Gysylltiedig a Gwaith / *Work Related Use of Mobile Phones* | 4 |
| Gwirfoddolwyr, Ymwelwyr, Llywodraethwyr a Chontractwyr / *Volunteers, Visitors, Governors & Contractors* | 4 |
| Rhieni a Gofalwyr / *Parents and Carers* | 5 |
| Rhaeadru / *Dissemination* | 5 |
| Adnoddau / *Resources* | 6 |


## *Cyflwyniad a Nodau / Introduction & Aims*

Yn Ysgol Gymraeg Trelyn, mae lles, diogelwch a gofal ein dysgwyr yn ganolog i bob agwedd o fywyd ysgol. Nodir disgwyliadau clir yn y polisi hwn ar gyfer defnyddio ffonau symudol a dyfeisiadau symudol personol yn briodol er mwyn cefnogi trefniadau diogelu cadarn yn ogystal â hyrwyddo amgylchedd dysgu tawel, pwrpasol a pharchus.

Nod y polisi yw sicrhau bod ffonau symudol yn cael eu defnyddio'n broffesiynol ac yn gyfrifol gan oedolion, wrth orfodi ymagwedd o ddim goddefgarwch i blant yn dod a ffonau symudol i'r ysgol neu ar gyfer unrhyw weithgaredd ysgol, gan gynnwys ymweliadau a phrofiadau preswyl.

Yn ogystal, mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddatblygu iard yr ysgol fel ardal rydd o ffonau symudol, yn enwedig ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Bydd yr ymagwedd hon yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol, lles emosiynol dysgwyr a chyfathrebu effeithiol rhwng plant a rhieni / gofalwyr. Credai'r ysgol fod cwrdd â phlant gyda chyswllt llygaid, gwen a sgwrs yn chwarae rhan annatod mewn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel, yn bwysig ac yn barod i ddysgu. Anogir rhieni / gofalwyr i gefnogi'r ymagwedd hwn er lles y plentyn.

Mae Confensiwn y Deyrnas Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) wrth wraidd cynllunio, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, nid yn unig yr ydym yn addysgu am hawliau plant ond hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas. Mae'r polisi hwn yn gysylltiedig â:

Erthygl 16: Eich hawl i breifatrwydd

Erthygl 19: Ni ddylech gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel.

Erthygl 36: Dylech gael eich amddiffyn rhag gwneud pethau a allai beri niwed i chi.

Dylid darllen y polisi hwn fel rhan o Bolisi Diogelu'r ysgol.

*At **Ysgol Gymraeg Trelyn**, the well-being, safety and care of our learners are central to all aspects of school life. This Mobile Phone Policy sets out clear expectations for the appropriate use of mobile phones and personal mobile devices in order to support strong safeguarding arrangements and promote a calm, purposeful and respectful learning environment.*

*The aim of this policy is to ensure that mobile phones are used professionally and responsibly by adults, while enforcing a **zero-tolerance approach** to pupils bringing mobile phones to school or to any school-related activity, including visits and residential experiences.*

*In addition, the school is committed to developing the **school yard as a mobile-free zone**, particularly at the end of the school day. This approach supports positive relationships, learners' emotional well-being and effective communication between children and parents or carers. The school believes that greeting children with eye contact, a smile and conversation plays an important role in helping them feel safe, valued and ready to learn. Parents and carers are therefore encouraged to support this approach for the benefit of their child.*

*The United Convention on the Rights of the Child (CRC) is at the heart of our school's planning, policies, practice and ethos. As a rights respecting school we not only teach about children's rights but also model rights and respect in all relationships. This policy is linked to:*

*Article 16: Your right to privacy*

*Article 19: You should not be harmed and should be looked after and kept safe.*

*Article 36: You should be protected from doing things that could harm you.*

*This policy should be read as part of the school's Safeguarding Policy.*

## *ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU / ROLES AND RESPONSISBILITIES*

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn a allai fod yn bresennol ar safle'r ysgol neu sy'n ymwneud â gweithgareddau'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys staff, gwirfoddolwyr, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni/gofalwyr, ymwelwyr a chontractwyr. Mae hyn yn berthnasol yn ystod y diwrnod ysgol ac i bob gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r ysgol, gan gynnwys ymweliadau oddi ar y safle a phrofiadau preswyl.

Ein nod yw bod pob ymarferydd:
- yn meddu ar ddealltwriaeth glir o beth sy'n golygu camddefnyddio dyfeisiau symudol
- yn deall sut i leihau risg
- yn osgoi sefyllfaoedd a allai gael eu camddehongli neu arwain at honiadau
- yn cynnal ffiniau proffesiynol clir
- yn cymryd cyfrifoldeb am hunan-gymedroli eu hymddygiad eu hunain
- yn deall pwysigrwydd adrodd pryderon yn brydlon

*This policy applies to all individuals who may be present on the school site or involved in school activities. This includes staff, volunteers, governors, pupils, parents/carers, visitors and contractors. This applies during the school day and to all school-related activities, including off-site visits and residential experiences.*

*Our aim is that all practitioners:*

- *have a clear understanding of what constitutes misuse of mobile devices*
- *understand how to minimise risk*
- *avoid situations that could be misinterpreted or lead to allegations*
- *maintain clear professional boundaries*
- *take responsibility for self-moderation of their own behaviour*
- *understand the importance of reporting concerns promptly*

## Defnydd disgyblion o ffonau symudol – dim goddefgarwch / *Pupils use of mobile phones – zero tolerance*

Mae Ysgol Gymraeg Trelyn yn gweithredu polisi dim goddefgarwch o ran disgyblion sy'n dod â ffonau symudol i'r ysgol.

- **Ni chaniateir** i ddisgyblion ddod â ffonau symudol i'r ysgol o dan unrhyw amgylchiadau. Mae hyn yn cynnwys safle'r ysgol ymweliadau addysgol, digwyddiadau chwaraeon ac ymweliadau preswyl.
- Bydd unrhyw ffôn symudol sy'n dod i'r ysgol yn cael ei gymryd ar unwaith a'i ddychwelyd yn uniongyrchol i'r rhiant neu'r gofalwr ar ddiwedd y dydd.
- Gall torri'r polisi hwn dro ar ôl tro arwain at gamau pellach yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol.

Mae'r ymagwedd hon yn cefnogi diogelu ac yn lleihau'r risg o fwlio, camddefnyddio neu gynnwys amhriodol.

**Eithriadau Meddygol**
I nifer fach o ddisgyblion â chyflyrau meddygol, fel diabetes Math 1 neu epilepsi, gall ffôn clyfar fod yn ddyfais hanfodol sy'n achub bywyd. Gellir defnyddio'r dyfeisiau hyn i fonitro glwcos yn y gwaed neu dderbyn rhybuddion meddygol. I'r disgyblion hyn, nid yw ffôn clyfar yn gyfleustra ond yn angenrheidrwydd meddygol. Mewn achosion o'r fath, bydd mynediad at ffôn clyfar ar safle'r ysgol yn cael ei reoli trwy gytundeb ffurfiol rhwng yr ysgol, y disgybl a'r rhiant/gofalwr, gan nodi disgwyliadau clir ar gyfer defnydd diogel a phriodol.

*Ysgol Gymraeg Trelyn operates a **zero-tolerance policy** regarding pupils bringing mobile phones to school.*

- *Pupils are **not permitted** to bring mobile phones to school under any circumstances.This includes the school site, educational visits, sporting events and residential visits.*
- *Any mobile phone brought into school will be confiscated immediately and returned directly to the parent or carer at the end of the day.*
- *Repeated breaches of this policy may result in further action in line with the school's behaviour policy.*

*This approach supports safeguarding, reduces distractions to learning and minimises the risk of bullying, misuse or inappropriate content.*

***Medical Exceptions***
*For a small number of pupils with medical conditions, such as Type 1 diabetes or epilepsy, a smartphone may be an essential, life-saving device. These devices can be used to monitor blood glucose or receive medical alerts. For these pupils, a smartphone is not a convenience but a medical necessity. In such cases, access to a smartphone on school premises will be managed through a formal agreement between the school, the pupil and their parent or carer, setting out clear expectations for its safe and appropriate use.*

## Ffonau Symudol - Staff / *Mobile phones - staff*

- Ni ddylai staff wneud na derbyn galwadau na negeseuon yn ystod amser cyswllt gyda dysgwyr onibai bod argyfwng
- Rhaid gwneud cysylltiadau brys trwy swyddfa'r ysgol
- Rhaid i ffonau gael eu troi i ffwrdd neu eu gosod i ddistaw a'u cadw allan o'r golwg (e.e. bag neu boced) yn ystod gwersi, neu yn ystod cyfnodau pan maent yn gyfrifol am oruchwylio plant
- Ni ddylid defnyddio ffonau mewn unrhyw ardal lle mae'n plant yn bresennol gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, yr iard na choridorau
- Dylid cyfyngu defnydd ffonau symudol (gan gynnwys galwadau, negeseuon testun ac e-byst) i amser digyswllt a dim ond mewn mannau lle nad oes disgyblion yn bresennol (e.e. ystafell staff, swyddfa neu ystafelloedd dosbarth gwag).
- Cynghorir staff i ddefnyddio gosodiadau diogelwch priodol ar ddyfeisiau symudol personol.
- Mewn amgylchiadau eithriadol (e.e. salwch teuluol difrifol), rhaid i staff hysbysu'r Pennaeth a gallant gadw eu ffôn wrth law ar gyfer cyswllt brys yn unig.
- Ni ddylai staff byth ddefnyddio ffonau symudol personol i dynnu lluniau, fideos na recordiadau sain o ddisgyblion.
- Dylid tynnu lluniau ac ati ar offer ysgol yn unig.
- Mewn lleoliadau fel cyfarfodydd staff, dylai staff gadw ffonau symudol ar dawel neu wedi'u diffodd. Ni ddylid defnyddio ffonau yn ystod yr amseroedd hyn.
- Rhaid adrodd ar unwaith i'r Pennaeth am unrhyw bryderon ynghylch defnyddio dyfeisiau symudol.

- *Staff must not make or receive calls or messages during contact time with pupils apart from exceptional circumstances*
- *Emergency contact must be made via the school office.*
- *Mobile phones must be switched off or set to silent and kept out of sight (e.g. in a bag or pocket) during lessons, or at times where they are responsible for the supervision of children.*
- *Mobile phones must not be used in any area where pupils are present, including classrooms, playgrounds and corridors.*
- *Use of mobile phones (including calls, texts and emails) should be limited to non-contact time and only in areas where no pupils are present (e.g. staff room, offices or empty classrooms).*
- *Staff are advised to use appropriate security settings on personal mobile devices.*
- *In exceptional circumstances (e.g. serious family illness), staff must inform the Headteacher and may keep their phone accessible for emergency contact only.*
- *Staff must never use personal mobile phones to take photographs, videos or audio recordings of pupils.*
- *All photographs and recordings must be taken using school-owned equipment such as iPads.*
- *In setting such as staff meetings, staff should keep mobile phones on silent or switched off. Phones should not be used during these times.*
- *Any concerns relating to the use of mobile devices must be reported immediately to the Headteacher.*

## DEFNYDD FFONAU SYMUDOL YN GYSYLTIEDIG A GWAITH / *WORK RELATED USE OF MOBILE PHONES*

Mae'r ysgol yn cydnabod y gall ffonau symudol ddarparu dull cyfathrebu defnyddiol i staff yn ystod gweithgareddau oddi ar y safle. Fodd bynnag, rhaid i staff sicrhau:

- bod defnydd o ffonau symudol yn parhau i fod yn broffesiynol ac yn briodol bob amser
- ni ddefnyddir ffonau symudol personol i dynnu lluniau na recordio disgyblion
- ni chysylltir â rhieni'n uniongyrchol yn ystod tripiau ysgol heb ganiatad y Pennaeth; rhaid gwneud yr holl gyfathrebu drwy swyddfa'r ysgol neu systemau ysgol y cytunwyd arnynt
- mewn achosion eithriadol, gall aelod o staff, gyda chaniatâd y Pennaeth neu’r Dirprwy Bennaeth, ddefnyddio ffôn er enghraifft i gysylltu â’r ysgol os ydynt oddi ar y safle

Os fydd rhieni yn mynychu ymweliadau, byddant yn cael gwybod:
- na ddylid defnyddio ffonau symudol i dynnu lluniau na recordio
- na ddylent gysylltu â rhieni eraill drwy alwadau, negeseuon, e-bost na chyfryngau cymdeithasol yn ystod yr ymweliad

*The school recognises that mobile phones may provide a useful means of communication for staff during off-site activities. However, staff must ensure that:*

- *mobile phone use remains professional and appropriate at all times*
- *personal mobile phones are never used to take photographs or recordings of pupils*
- *parents are not contacted directly during school trips without the permission of the Headteacher; all communication must be made via the school office or agreed school systems*
- *In exceptional cases, a member of staff, with the Headteacher’s or Deputy Headteacher’s permission, may use a phone, for example, to contact the school if they are off-site.*

*Where parents accompany school visits, they will be informed that:*
- *mobile phones must not be used to take photographs or recordings*
- *they must not contact other parents via calls, messages, email or social media during the visit*

## GWIRFODDOLWYR, YMWELWYR, LLYWODRAETHWYR A CHONTRACTWYR / *VOLUNTEERS, VISITORS, GOVERNORS AND CONTRACTORS*

Disgwylir i bob gwirfoddolwr, ymwelydd, llywodraethwr a chontractwr ddilyn yr un disgwyliadau â staff o ran defnyddio ffonau symudol tra ar safle'r ysgol neu yn ystod gweithgareddau'r ysgol.

Ar ôl cyrraedd, bydd ymwelwyr yn cael gwybod am ddisgwyliadau'r ysgol, gan gynnwys:

- cadw ffonau symudol ar dawel ac allan o'r golwg

- peidio â defnyddio ffonau symudol mewn mannau lle mae disgyblion yn bresennol
- peidio â chymryd lluniau, fideos na recordiadau o ddisgyblion

*All volunteers, visitors, governors and contractors are expected to follow the same expectations as staff regarding mobile phone use while on the school premises or during school activities.*

*On arrival, visitors will be informed of the school's expectations, including:*

- *keeping mobile phones on silent and out of sight*
- *not using mobile phones in areas where pupils are present*
- *not taking photographs, videos or recordings of pupils*

## *RHIENI A GOFALWYR / PARENTS AND CARERS*

Annogir rhieni a gofalwyr beidio â defnyddio ffonau symudol ar gyfer galwadau, negeseuon na chyfryngau cymdeithasol tra byddant ar safle'r ysgol. Dylid cadw ffonau ar dawel ac allan o'r golwg.

Nod yr ysgol yw cadw iard yr ysgol yn rhydd o ffonau symudol, yn enwedig ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol, er mwyn cefnogi rhyngweithio cadarnhaol a lles ein dysgwyr. Anogir rhieni a gofalwyr i gefnogi hyn trwy roi sylw llawn i blant yn ystod yr amseroedd pwysig hyn.

Gall rhieni ddefnyddio ffonau symudol i dynnu lluniau neu fideos yn ystod digwyddiadau'r ysgol fel gwasanaethau neu ddiwrnodau chwaraeon. Fodd bynnag:

- dim ond plentyn eu hunain y dylai delweddau eu cynnwys
- ni ddylid rhannu delweddau ar gyfryngau cymdeithasol neu lwyfannau eraill os yw disgyblion eraill yn ymddangos
- ni ddylid defnyddio ffonau symudol at unrhyw ddiben arall yn ystod y digwyddiadau hyn.

*Parents and carers are encouraged not to use mobile phones for calls, messaging or social media while on the school premises. Phones should be kept on silent and out of sight.*

*The school aims to keep the **school yard mobile-free**, particularly at the start and end of the school day, to support positive interactions and learners' well-being. Parents and carers are encouraged to support this by giving children their full attention during these important transition times.*

*Parents may use mobile phones to take photographs or videos during school events such as assemblies or sports days. However:*

- *images must only include their own child*
- *images must not be shared on social media or other platforms if other pupils appear*
- *mobile phones must not be used for any other purpose during these events*

## *RHAEADRU / DISSEMINATION*

Bydd y polisi hwn yn cael ei rannu gyda staff a gwirfoddolwyr fel rhan o'u cyfnod sefydlu. Bydd y polisi ar gael i rieni a gofalwyr drwy swyddfa'r ysgol a gwefan yr ysgol.

*This policy will be shared with staff and volunteers as part of their induction. It will be made available to parents and carers via the school office and the school website.*

ysgolgymraegtrelyn@sch.caerphilly.gov.uk *01443 821600*

## Adnoddau / Resources

Mae cyngor ar ddefnydd ffonau symudol ar gael ar y safleoedd canlynol:

*Advice on the use of mobile phones is available at the following sites:*

- *https://www.nspcc.org.uk/keeping-children-safe/online-safety/access-to-technology-for-different-ages/*
- *https://www.barnardos.org.uk/blog/keeping-your-child-safe-their-smartphone*
- *https://www.bbc.co.uk/bitesize/articles/zfcctcw*
- *https://www.smartphonefreechildhood.org/*

**Cymeradwyo a Gweithredu'r Polisi /** Policy Approval and Implementation

- **Cymeradwywyd gan /** Approved by**:** Corff Llywodraethol Ysgol Gymraeg Trelyn
- **Dyddiad Cymeradwyo /** Date of Approval**:** Y26-M03-D17
- **Dyddiad Gweithredu /** Date of Implementation: Y26-M03-D18
- **Dyddiad Adolygu Nesaf /** Next Review Date**:** Y29-M03-D17

**Llofnod Pennaeth /** Headeacher Signature: ______________________

**Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr /** Signature of Chair of Governors: ______________________